

ASEDAU CYNHYRCHU FFERM WYNT ALLTRAETH MORECAMBE (Y “PROSIECT”)

DEDDF CYNLLUNIO 2008 – ADRAN 48 ‘DYLETSSWYDD I ROI CYHOEDDUSRWYDD’

RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (CEISIADAU: FFURFLENNI A GWEITHDREFNAU RHAGNODEDIG) 2009 RHEOLIAD 4

RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (ASESU EFFAITH AMGYLCHEDDOL) 2017 – RHEOLIAD 13

HYSBYSIAD O GYHOEDDI CAIS ARFAETHEDIG AM ORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU AR GYFER ASEDAU CYNHYRCHU FFERM WYNT ALLTRAETH MORECAMBE

Y Cais

Hysbysir drwy hyn bod Morecambe Offshore Windfarm Ltd (yr “Ymgeisydd”) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 12 Alva St, Caeredin, yn bwriadu cyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net o dan Adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 am gydsyniad datblygu (y “Cais Arfaethedig”) i awdurdodi adeiladu'r Prosiect. Mae'r Ymgeisydd yn fenter ar y cyd rhwng Cobra Instalaciones y Servicios, S.A. (“Cobra”) a Flotation Energy Ltd.


Bydd y Cais Arfaethedig hefyd yn cynnwys gweithredu a chynnal a chadw'r Prosiect.

Y Prosiect

Mae'r Prosiect yn cynnwys fferm wynt alltraeth arfaethedig yn nwyrain Môr Iwerddon. Rhagwelir y bydd yn cynhyrchu capasiti nominal o 480 megawatt (MW) ac yn cynhyrchu pŵer adnewyddadwy ar gyfer dros 500,000 o gartrefi yn y Deyrnas Unedig (DU). Ar ei bwynt agosaf, mae safle'r fferm wynt tua 30km oddi ar arfordir Swydd Gaerhirfryn. Bydd y Prosiect yn helpu'r Deyrnas Unedig i gyflawni ei nod o gynhyrchu 50GW o bŵer o wynt alltraeth erbyn 2030. Bydd y Prosiect yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Hyd at 40 generadur tyrbinau gwynt ar y môr
- Hyd at ddau blatfform is-orsaf alltraeth
- Ceblau cysylltu platfformau
- Ceblau rhyng-arâe

Bydd y tyrbinau gwynt a'r platfformau is-orsaf ar y môr wedi'u lleoli ar safle'r fferm wynt alltraeth (a ddangosir isod) ac wedi'u gosod yn sownd i wely'r môr gyda strwythurau sylfaen. Bydd y seilwaith trawsyrru i gysylltu'r Prosiect â'r Grid Cenedlaethol yn destun cais ar wahân am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Bydd y cais ar wahân hwn ar gyfer yr asedau trawsyrru ar gyfer y Prosiect ac Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morgan.



Where to get more information  Consultation events  Pop-up events  Deposit locations 

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Mae'r Ymgeisydd wedi rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig o dan Reoliad 8(1)(b) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017 ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol mewn perthynas â'r Prosiect. Felly, mae'r Prosiect yn "ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol" at ddbenion Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a bydd Datganiad Amgylcheddol yn rhan o'r Cais Arfaethedig.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd am y Prosiect hyd yma wedi'i chynnwys mewn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Bydd Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol hefyd ar gael.

Dogfennau'r Ymgynghoriad

Mae'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, y Crynodeb Annhechnegol a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys cynlluniau a mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y Prosiect (y "Dogfennau Ymgynghori"), ar gael i'w llwytho i lawr a'u gweld yn rhad ac am ddim o'r Hyb Ymgynghori ar wefan y Prosiect: www.morecambeandmorgan.com/morecambe. Byddant ar gael i'w llwytho i lawr o ddechrau'r ymgynghoriad statudol ar **19 Ebrill 2023 tan 4 Mehefin 2023**. Mae manylion digwyddiadau ymgynghori hefyd ar gael ar y wefan hon.

Ar ben hynny, bydd modd gweld copïau o'r llyfryn ymgynghori, y ffurflen adborth, y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol, a'r Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol mewn amrywiol lleoliadau cyfeirio yn ardal y Prosiect o 19 Ebrill 2023 ymlaen. Bydd copi llawn o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol hefyd ar gael ar gof bach USB. Mae rhestr lawn o'r lleoliadau cyfeirio i'w gweld isod. Maent hefyd ar gael ar wefan yr Ymgeisydd a byddant ar gael i'w harchwilio o **19 Ebrill 2023 tan 4 Mehefin 2023**. Mae rhestr lawn o'r lleoliadau cyfeirio ar gael ar wefan yr Ymgeisydd a bydd ar gael i'w harchwilio tan **4 Mehefin 2023**.

Os nad ydych chi'n gallu mynd i wefan y Prosiect neu ymweld â lleoliad adneuo, gallwch gael y dogfennau ymgynghori drwy ffonio tîm y prosiect ar **0800 915 2493 (opsiwn 2)** neu anfon e-bost at hello@morecambeoffshorewind.com. Gall tâl copïo rhesymol fod yn berthnasol i geisiadau am gopi papur llawn o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Bydd copïau electronig yn rhad ac am ddim.

Lleoliadau adneuo	Amseroedd agor
Llyfrgell Henry Bloom Noble , 8 Duke Street, Douglas, Ynys Manaw IM1 2AY	Llun-Mercher a Gwener: 8.30am-5pm Iau: 10am-7pm Sadwrn: 9am-4pm
Llyfrgell y Dref – Ramsey , Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT	Llun-Mercher a Sadwrn: 9am-4:30pm Gwener: 9am-4:00pm
Canolfan Gymunedol Abbots Vale , Barrow-in-Furness LA13 9PA	Llun-Gwener: 9am-8pm
Prif Lyfrgell Gyhoeddus Barrow-in-Furness , Barrow-in-Furness, Ramsden Square LA14 1LL	Llun-Iau: 9:30am-6pm Gwener: 9:30am-5pm Sadwrn: 10am-4pm
Canolfan Gymunedol Egremont , Egremont Mission, Guildford Street, Wallasey CH44 0BP	Llun-Gwener: 9am-4pm
Canolfan Gymunedol a Chyngor Tref Penwortham , Kingsfold Drive, Penwortham, Preston PR1 9EQ	Llun-Iau: 10am-3pm Gwener: 10am-12pm
Cyngor Dinas Preston , Neuadd y Dref, Lancaster Road, Preston PR1 2RL	Llun-Mercher a Gwener: 9am-5pm Iau: 10am-5pm
Llyfrgell Southport , Lord Street, Southport PR8 1DJ	Llun-Gwener: 10am-5pm Sadwrn: 10am-2pm
Llyfrgell Amlwch , Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA	Mawrth: 9.30am-12.30pm a 2pm-5pm Mercher, Gwener, Sadwrn: 9.30am-12.30pm Iau: 2pm-7pm
Llyfrgell Gyhoeddus Bangor , Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd, LL57 1DT	Llun-Mawrth: 9:30am-6:30pm Mercher-Gwener: 9:30am-5pm

	Sadwrn: 9:30am-1pm
Llyfrgell Llandudno , Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP	Llun-Mercher a Gwener: 9am-5:30pm Iau: 10am-7pm Sadwrn: 9:30am-3pm
Llyfrgell, Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydol y Rhyl , Stryd yr Eglwys, Y Rhyl LL18 3AA	Llun: 9:30am-6pm Mawrth-Gwener: 9:30am-5pm Sadwrn: 9:30am-12.30pm

Ymateb i'r hysbysiad hwn

Os ydych chi'n dymuno ymateb i'r hysbysiad hwn neu wneud sylwadau mewn perthynas â'r Prosiect, dylid anfon y rhain at yr Ymgeisydd. Rhowch eich enw a chyfeiriad lle gellir anfon unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r Prosiect. Gellir cyflwyno sylwadau yn y ffyrdd canlynol:

- **Llenwi'r ffurflen adborth**
Mae copi electronig ar gael ar wefan y Prosiect. Mae copïau papur ar gael hefyd mewn digwyddiadau ymgynghori, mewn lleoliadau cyfeirio, neu ar gais gan y tîm cysylltiadau cymunedol.
- **Map rhyngweithiol**
Ar gael ar wefan y Prosiect: www.morecambeandmorgan.com/morecambe
- **Ffôn**
0800 915 2493 (opsiwn 2), ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm
- **E-bost**
hello@morecambeoffshorewind.com
- **Ysgrifennu atom**
FREEPOST MORECAMBE GENERATION

Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu dadansoddi gan yr Ymgeisydd ac unrhyw asiant a benodir gan yr Ymgeisydd. Gellir darparu copïau maes o law i'r Ysgrifennydd Gwladol, yr Arolygiaeth Gynllunio ac awdurdodau statudol perthnasol eraill er mwyn gallu nodi eich sylwadau. Mae'n bosib y bydd ymatebion a sylwadau eraill yn cael eu copïo a'u cyhoeddi.

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni ac rydym yn dryloyw ynghylch sut rydym yn defnyddio eich data. Os hoffech chi ddiweddarau eich gwybodaeth, cael gwybod mwy, neu wneud unrhyw geisiadau, cysylltwch â thîm y Prosiect neu fynd i www.morecambeandmorgan.com/morecambe.

Cofiwch fod yn rhaid i'r holl sylwadau ddod i law'r Ymgeisydd erbyn **hanner nos, 4 Mehefin 2023**.

Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt ar y Môr Morecambe